OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN C

## CYFEILLION ACHOS

**Gofyniad am gyfaill achos**

**64.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff apelydd neu hawlydd gynnal achos mewn perthynas ag apêl neu hawliad heb gyfaill achos.

(2) Ni chaiff apelydd neu hawlydd gynnal achos pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi gwneud canfyddiad nad oes gan yr apelydd neu'r hawlydd ddealltwriaeth ddigonol i gyfranogi, neu barhau i gyfranogi fel parti yn yr apêl neu'r hawliad heb gyfaill achos.

(3) Rhaid i'r cwestiwn a oes gan yr apelydd neu'r hawlydd ddealltwriaeth ddigonol ai peidio i gynnal achos heb gyfaill achos, pa un a godir y cwestiwn—

(a) gan barti i'r apêl neu'r hawliad; neu

(b) gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar gymhelliad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hunan,

gael ei benderfynu gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys.

(4) Pan fo paragraff (3)(a) yn gymwys, mater i'r parti hwnnw fydd bodloni'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys nad oes gan yr apelydd neu'r hawlydd ddealltwriaeth ddigonol i gynnal achos heb gyfaill achos.

(5) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys glywed unrhyw dystiolaeth a ystyrir yn berthnasol gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, er mwyn penderfynu'r cwestiwn o dan baragraff (3).

(6) Rhaid i unrhyw wrandawiad a gynhelir i benderfynu'r cwestiwn beidio â chael ei gynnal yn gyhoeddus.

(7) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys allgáu o'r gwrandawiad, neu o ran ohono, unrhyw berson y mae ei bresenoldeb, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn debygol o'i gwneud yn anodd i'r apelydd neu'r hawlydd wneud sylwadau.

(8) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi gwneud canfyddiad yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfarwyddo'r apelydd neu'r hawlydd i benodi cyfaill achos.